# YOUR POLICE · EICH HEDDLU




# YOUR MONEY · EICH ARIAN

## South Wales Police Authority has set the 2010/11 budget as £257.3 Million – an increase of 3.5%.

The police element of council tax has increased by 5% – or £7.32 per year for a Band D household. This means the total amount a Band D household pays is £153.67, or 42p per day for a 24 hour, seven days a week police service.

## Mae Awdurdod Heddlu De Cymru wedi pennu cyllideb 2010/11 yn £257.3 Miliwn – cynnydd gan 3.5%.

Mae elfen yr heddlu o'r dreth gyngor wedi cynyddu gan 5% – neu £7.32 y flwyddyn ar gyfer cartref Band D. Golyga hyn mai'r cyfanswm y bydd cartref Band D yn ei dalu fydd £153.67, neu 42p y dydd am wasanaeth heddlu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

### Why have we increased the budget?

Setting the budget is always tough, and a question of balance. We asked for the publics views, and of nearly 1300 people who took part, there was a wide difference in opinion as to how much extra council tax should be asked for. Of those who answered, 43% felt that it should be between 2% and 4%, with 37% of people supporting an increase of 5% and over.

We also look to make efficiency savings each year, to ensure that we provide value for money and continue good service. Our achieved and projected cashable efficiencies since 2000 to 2011/12 amounts to some £35m.

Our forecasted General Reserve of 1.72% of budget is well below the 3% recommendation by the Wales Audit Office.

### Safer South Wales

Despite these pressures, we continue to work hard to keep South Wales safe. The total number of crimes recorded from April 2009 to January 2010 fell by 11,656 – which means there were 38 fewer victims of crime every day. As well as this, confidence in your local police has increased by nearly 8% in six months – from 39% to 46.9%, which is the biggest increase of any force in Wales and England. These performance figures show that crime is going down, whilst confidence in the police is going up.

The Authority and Force are proud of the continuing decrease in crime levels, and will work together with our communities and partners to make sure that this is maintained.

### Pam ein bod wedi cynyddu'r gyllideb?

Mae pennu'r gyllideb bob amser yn gwestiwn anodd ac mae'n fater o gydbwyso. Gofynnom am farn y cyhoedd, ac o'r bron i 1300 o bobl a gymerodd ran, roedd amrywiaeth barn eang ynglŷn â faint yn ychwanegol o dreth gyngor y dylid gofyn amdani. O'r rheiny a atebodd, teimlai 43% y dylai'r swm fod rhwng 2% a 4%, gyda 37% o'r bobl yn cefnogi cynnydd gan 5% a mwy.

Rydym hefyd yn ceisio gwneud arbedion effeithlonrwydd bob blwyddyn, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi gwerth am arian ac yn parhau i gynnig gwasanaeth da. Mae ein heffeithlonrwydd ariannol a gyflawnwyd ac a ragamcannir rhwng 2000 a 2011/12 yn dod i gyfanswm o tua £35 miliwn.

Mae ein Cronfa Wrth Gefn a ragwelir, sef 1.72% o'r gyllideb, yn llawer is na'r argymhelliad o 3% a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

### De Cymru Ddiogelach


Er y pwysau yma, rydym yn parhau i weithio'n galed i gadw De Cymru'n ddiogel. Mae cyfanswm nifer y troseddau a gofnodwyd rhwng Ebrill 2009 ac Ionawr 2010 wedi gostwng gan 11,656 – sy'n golygu 38 yn llai o ddioddefwyr trosedd bob dydd. Yn ogystal â hyn, mae'r hyder yn eich heddlu lleol wedi cynyddu gan bron i 8% mewn chwe mis – o 39% i 46.9%, y cynnydd mwyaf gan unrhyw lu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ffigurau perfformiad hyn yn dangos bod nifer troseddau yn gostwng tra bod hyder yn yr heddlu yn cynyddu.

Mae'r Awdurdod a'r Llu yn falch o'r gostyngiad parhaus mewn lefelau trosedd, a byddant yn gweithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid i wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei gynnal.

### WHAT YOU WILL PAY PER YEAR
### BETH FYDDWCH CHI'N EI DALU BOB BLWYDDYN

| | |
|---|---|
| BAND A | £102.44 (28p per day) |
| BAND B | £119.52 (33p per day) |
| BAND C | £136.59 (37p per day) |
| BAND D | £153.67 (42p per day) |
| BAND E | £187.81 (51p per day) |
| BAND F | £221.96 (61p per day) |
| BAND G | £255.11 (70p per day) |
| BAND H | £307.33 (84p per day) |
| BAND I | £358.56 (98p |

### HOW YOUR MONEY WILL BE SPENT
### SUT CAIFF EICH ARIAN EI WARIO



11% Pensions / Pensiynau
3% Premises / Eiddo
3% Transport / Cludiant
15% Other / Arall

per day)

23% Police Staff / Staff Heddlu
46% Police Officers / Swyddogion yr Heddlu

KEEPING SOUTH WALES **SAFE** • CADW DE CYMRU'N **DDIOGEL**

## Your Local Police Authority

South Wales Police Authority is the independent body who oversee the police force to make sure that our communities receive a first class policing service – as part of our vision of 'Keeping South Wales Safe'. We have 19 Members: Ten Councillors and Nine Independent Members, who represent the communities of South Wales, and act as the bridge between the public and the force.

For more information on the Police Authority, please visit our website at **www.southwalespoliceauthority.org.uk**. Alternatively, you can contact us by phone on **01656 869366** or by email at **police.authority@south-wales.pnn.police.uk**.

## Become an Independent Police Authority Member

This year you have the chance to become an Independent Police Authority Member and take charge of the policing budget. Register your interest at our website or contact the Authority directly on the details above.

## Get in contact

If you have any financial questions about the information held within this leaflet, please contact **01656 869299**.

For more information on who your local community police officers are, and the details of your local PACT meetings, please visit **www.ourbobby.com**.

## Eich Awdurdod Heddlu Lleol

Awdurdod Heddlu De Cymru yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio'r heddlu i wneud yn siŵr bod ein cymunedau yn derbyn gwasanaeth plismona o'r radd flaenaf – fel rhan o'n gweledigaeth 'Cadw De Cymru'n Ddiogel'. Mae gennym 19 aelod: Deg Cynghorydd a Naw Aelod Annibynnol, sy'n cynrychioli cymunedau De Cymru, ac yn gweithredu fel pont rhwng y cyhoedd a'r llu.

I gael rhagor o wybodaeth am yr Awdurdod Heddlu, ewch i'n gwefan yn **www.southwalespoliceauthority.org.uk**. Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffôn ar **01656 869366** neu drwy anfon e-bost i **police.authority@south-wales.pnn.police.uk**.

## Dewch yn Aelod Annibynnol o'r Awdurdod Heddlu

Eleni mae gennych gyfle i ddod yn Aelod Annibynnol o'r Awdurdod Heddlu a bod yn gyfrifol am y gyllideb plismona. Cofrestrwch eich diddordeb ar ein gwefan neu cysylltwch â'r Awdurdod yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion uchod.

## Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ariannol am y wybodaeth a geir yn y daflen hon, ffoniwch **01656 869299**.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â phwy yw eich swyddogion heddlu cymunedol lleol, a manylion eich cyfarfodydd PACT lleol, ewch i **www.ourbobby.com**.

| REVENUE BUDGET | 2010/11 £000's | 2009/10 £000's | CYLLIDEB REFENIW |
|---|---|---|---|
| Total Gross Expenditure | 295,370 | 284,038 | Cyfanswm Gwariant Crynswth |
| Income | -9,900 | -8,669 | Incwm |
| Other Grants (Home Office) | -28,138 | -26,901 | Grantiau Eraill (Swyddfa Gartref) |
| Use of Reserves | 0 | 0 | Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn |
| **Budget Requirement** | **257,332** | **248,468** | **Gofyniad Cyllideb** |
| Police Grant (Home Office) | -102,465 | -99,808 | Grant Heddlu (Swyddfa Gartref) |
| Revenue Support Grant (Welsh Assembly) | -45,176 | -44,638 | Grant Cynnal Refeniw (Cynulliad Cenedlaethol) |
| Non-Domestic Rates (Welsh Assembly) | -38,780 | -37,029 | Trethi Annomestig (Cynulliad Cenedlaethol) |
| **Council Tax Precept** | **70,911** | **66,993** | **Praesept y Dreth Gyngor** |
| **Council Tax Band D property** | **£153.67** | **£146.35** | **Y Dreth Gyngor Eiddo Band D** |
| **Total Standing Spending Assessment by Government for the Authority** | **227,545** | **221,302** | **Cyfanswm Asesiad Gwariant Sefydlog gan y Llywodraeth ar gyfer yr Awdurdod** |

The Capital programme budget for 2010/11 is £16.3 million. Funding is made available from Home Office capital grant £3.0 million and external borrowing of £2.2 million.
As at March 2009, the general reserves held was £3.7 million. As at March 2010, the reserve shall be £4.9 million.

Y gyllideb rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2010/11 yw £16.3 miliwn. Rhoddir ariannu ar gael drwy grant cyfalaf y Swyddfa Gartref gwerth £3.0 miliwn a benthyciadau allanol gwerth £2.2 miliwn.
Ym mis Mawrth 2009, y gronfa wrth gefn oedd £3.7 miliwn. Ym mis Mawrth 2010, y gronfa wrth gefn fydd £4.9 miliwn.



Designed and Printed by South Wales Police Print Department. Dyluniwyd ac Argraffwyd gan Adran Argraffu Heddlu De Cymru. Print Ref 962